Rhybudd o Benderfyniadau **Cyfarfod y CABINET**
A gynhaliwyd drwy gynhadledd fideo **Dydd Mawrth, 7 Medi 2021**

Cyhoeddir y Rhybudd hwn am 5.00pm ddydd Dydd Iau, 9 Medi 2021. Y dyddiad olaf i dderbyn cais i alw unryw benderfyniad i mewn yw 5.00 pm Dydd Iau, 16 Medi 2021 drwy ei anfon at Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd. Daw'r penderfyniadau i rym (os na fydd yna gais dilys i'w galw i mewn) Dydd Gwener, 17 Medi 2021

**YN BRESENNOL:** Cynghorydd Ellen ap Gwynn (Cadeirydd), Y Cynghorwyr Dafydd Edwards, Rhodri Evans, Catherine Hughes, Gareth Lloyd, Catrin Miles, Ray Quant MBE ac Alun Williams.

**HEFYD YN BRESENNOL:** Y Cynghorwyr Ceredig Davies, Hag Harris, John Roberts, Lynford Thomas ac Ivor Williams

(10.00 - 11.30 am)

**63 Ymddiheuriadau**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am beidio â bod yn bresennol yn y cyfarfod oddi wrth y Cynghorydd Keith Evans.

**64 Materion Personol**

i. Mynegwyd cydymdeimlad â'r Cynghorydd Catherine Hughes yn dilyn marwolaeth ei thad dros yr haf.
ii. Mynegwyd cydymdeimlad hefyd â'r Cynghorydd Ifan Davies yn dilyn marwolaeth ddiweddar ei fam.
iii. Mynegwyd cydymdeimlad hefyd â theulu Eleri Ebenezer, Cadeirydd hen Ymddiriedolaeth GIG Ceredigion a Chanolbarth Cymru.
iv. Mynegwyd cydymdeimlad hefyd â theulu John Davies o 'T.J.Davies a'i fab', a fu farw'n ddiweddar.
v. Mynegwyd cydymdeimlad â theulu Richard Jones o 'Ail Symudiad' a fu farw'n ddiweddar.
   Cynhaliwyd munud o dawelwch er cof amdanynt.
vi. Talwyd teyrngedau i'r aelod o'r cyhoedd a seiniodd rybudd mewn ymateb i'r tân diweddar yn y Borth ac i waith rhagorol y Gwasanaeth Tân, Gwasanaeth yr Heddlu ac i Staff Cyngor Sir Ceredigion wrth drefnu cau ffyrdd, dargyfeiriadau a chyfleusterau amgen ar gyfer yr aelodau o'r cyhoedd yr effeithiwyd arnynt.
vii. Estynnwyd llongyfarchiadau i Dion a Cara ar drefnu digwyddiad codi arian llwyddiannus i godi arian ar gyfer y Ward Canser yng Nglangwili.
viii. Estynnwyd llongyfarchiadau i Lleucu Roberts ar ennill Gwobr Goffa Daniel Owen a'r Fedal Ryddiaith yn yr Eisteddfod Genedlaethol.
ix. Estynnwyd llongyfarchiadau i Gwenallt Llwyd Ifan ar ennill y Gadair yn yr Eisteddfod Genedlaethol.
x. Estynnwyd llongyfarchiadau i'r beiciwr ifanc Joshua Tarling ar ennill aur yn y ras cwrso tîm a'r '*omnium*' unigol ym Mhencampwriaethau Trac Iau a Dan 23 Ewrop a gynhaliwyd yn Apeldoorn yn yr Iseldiroedd ddiwedd mis Awst.

xi. Mynegwyd dymuniadau gorau i gystadleuwyr a threfnwyr y 'Tour of Britain' a fyddai'n ymweld â Cheredigion ddydd Mercher yr wythnos hon.

xii. Yn ystod y cyfarfod, hysbyswyd y Cabinet am farwolaeth William Edwards, cyn Gynghorydd, a mynegwyd cydymdeimlad â'i deulu.

**65 Datgelu buddiannau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu**

Dim

**66 Diweddariad ar lafar gan Arweinydd y Cyngor parthed COVID-19**

Rhoddodd Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Ellen ap Gwynn, ddiweddariad ar lafar parthed COVID-19. Nododd fod nifer yr achosion positif yn cynyddu yn y Sir a ledled Cymru.

Roedd 123 o achosion ychwanegol yng Ngheredigion ddoe (adrodd 2 ddiwrnod o achosion) gyda 63 achos arall y bore yma, sy'n rhoi cyfanswm o 3,138 o achosion yn y Sir ers dechrau'r pandemig. Ar hyn o bryd, cyfradd yr achosion fesul 100,000 o'r boblogaeth yw 364.5. Mae'r cynnydd yn nifer yr achosion bellach yn arwain at fwy o bobl yn mynd i'r ysbyty ar draws ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Mae gwaith yn mynd rhagddo i gyflwyno'r brechlyn yn y canolfannau brechu yn Hen Ysgol Trewen yn y de, a Llanbadarn yng ngogledd y Sir. Mae'r broses gyflwyno bellach yn cynnwys pobl ifanc 16 – 18 oed.

Rhoddodd yr Arweinydd ddiweddariad ar wasanaethau'r Cyngor gan nodi bod wyth cartref gofal yn y categori coch oherwydd bod staff wedi'u heintio, fodd bynnag roedd dau gartref gofal wedi symud i'r categori gwyrdd ddoe. Nododd fod effaith y pandemig i'w gweld ar staff ym mhob maes gwasanaeth. Mae pob ysgol wedi ailagor ond adroddwyd am nifer o achosion dros y penwythnos. Mae'r gwaith pwysig a wneir gan y Tîm 'Tracio, Olrhain ac Atal' yn parhau i fod yn hanfodol i leihau trosglwyddiad y feirws yn y gymuned. Mae faniau llyfrgell yn parhau i weithredu ar sail 'clicio a chasglu' ac mae llyfrgelloedd tref yn parhau i gynnig system apwyntiadau.

O ran gofal i'r rhai ag Anableddau Dysgu, mae Canolfan Steffan bellach ar agor ac mae angen gwaith sylweddol i wella'r ddarpariaeth yng Nghanolfan Padarn. Yn y cyfamser, mae Canolfan Meugan yn cael ei defnyddio gan staff yng Nghartref Gofal Preswyl Yr Hafod ac mae gweithgareddau hefyd yn cael eu cynnal mewn lleoliadau megis Theatr Mwldan.

Mae gwyliau blynyddol, yr angen i hunanynysu, ac effaith y prinder cenedlaethol o yrwyr Cerbydau Nwyddau Trwm (HGV) wedi effeithio ar Wasanaethau Gwastraff. Ymddiheurodd yr Arweinydd am yr amhariad gan nodi y dylai'r sefyllfa sefydlogi erbyn hyn. Mae unedau trin aer wedi cael eu harchebu ar gyfer pyllau nofio Llanbedr Pont Steffan ac Aberystwyth, a fydd yn ailagor ar ôl i'r gwaith gosod gael ei gwblhau. Diolchodd i Brifysgol Aberystwyth a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, campws Llambed, am ddarparu eu cyfleusterau er mwyn i'r gymuned eu defnyddio yn y cyfamser. Mae Canolfan Hamdden Aberteifi wedi'i dychwelyd i'r Cyngor ac mae gwaith yn mynd rhagddo i'w defnyddio unwaith eto. Bydd angen gwneud rhagor o waith ar y llawr yng Nghanolfan Hamdden Plascrug, a bydd Canolfan

Hamdden Llanbedr Pont Steffan yn cael ei haddasu i gynnwys canolfan les a fydd yn cyfuno Hamdden a chymorth arall. Nodwyd bod cyfleusterau hamdden hefyd yn Ysgol Penglais ac Ysgol Bro Pedr.

Nododd yr Arweinydd fod y trefniant o gau ffyrdd ar gyfer y Parthau Diogel bellach wedi dod i ben, ac eithrio Pen Cei yn Aberaeron, sydd wedi cael ei gynnal mewn ymateb i gais gan yr Aelod lleol a Chyngor y Dref. Byddai newidiadau i systemau unffordd yn parhau tan ddiwedd y mis, ac nid yw'r palmentydd lletach dros dro wedi'u symud eto tra bod nifer yr ymwelwyr yn parhau i fod yn uchel.

Atgoffodd yr Arweinydd bawb o reolau Llywodraeth Cymru ynglŷn â gwisgo masgiau dan do ac ar drafnidiaeth gyhoeddus, pwysigrwydd cadw pellter diogel, sicrhau digon o awyr iach a'r rhwymedigaethau cyfreithiol i fusnesau baratoi asesiad risg gan sicrhau iechyd a diogelwch y cyhoedd, annog pawb i fod yn wyliadwrus a chadw'n ddiogel.

**67 Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod Blaenorol y Cabinet ac unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion hynny.**

Cadarnhau bod cofnodion Cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 13 Gorffennaf 2021 yn gywir, yn amodol ar ddiwygio fersiwn Gymraeg cofnod 58b) i adlewyrchu teitl cywir yr Aelod Cabinet ar gyfer Porth Gofal, Ymyrraeth Gynnar, Canolfannau Lles a Diwylliant.

**68 Unrhyw ddeisebau a dderbynwyd**

Dim

**69 Unrhyw benderfyniadau (os oes rhai) a alwyd i mewn gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu**

Dim

**70 Unrhyw adborth gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu sydd ddim ar yr agenda.**

Dim

**71 Ystyried adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Polisi a Pherfformiad ar: y Cynllun Adleoli Staff a Gyflogwyd yn Lleol yn Affganistan**

**PENDERFYNIAD**

Adleoli o leiaf dau deulu o Affganistan o dan y Cynllun Staff a Gyflogwyd yn Lleol yn Affganistan.

***Y rheswm dros y penderfyniad:***

*Er mwyn ymateb i'r argyfwng dyngarol yn Affganistan wrth i'r Taliban gipio grym yn gyflym wlad.*

72 **Ystyried adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Ysgolion a Diwylliant ar: Perthyn: Archwiliad o sut y gall casgliadau greu cymuned yng Ngheredigion**

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwyo'r ymrwymiad £250,000 o'r Gronfa Gyfalaf fel arian cyfatebol tuag at brosiect Perthyn.

***Y rheswm dros y penderfyniad:***

Diogelu casgliad yr Amgueddfa ar gyfer y dyfodol a rhoi cyfleoedd pellach ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned

73 **Ystyried adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Cyllid a Chaffael ar: y Gyllideb Refeniw Reoladwy - 2021/22**

**PENDERFYNIAD**

i. Cymeradwyo'r trosglwyddiadau (*virements*) angenrheidiol yn y gyllideb er mwyn cyflawni'r Cynilion Corfforaethol fel y'u hamlinellir yn Adran 2 yr adroddiad – cyfanswm o £2.137m.

ii. Nodi'r adroddiad gan gynnwys y trosglwyddiadau (*transfers*) yn y gyllideb fel y'u hamlinellir yn Adran 2 – cyfanswm o £1.395m.

***Y rheswm dros y penderfyniad:-***

*Cyrraedd y targed cynilo Corfforaethol a osodwyd fel rhan o broses Pennu'r Gyllideb 2021/22*

74 **Ystyried adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Pobl a Threfniadaeth ar: Strategaeth Iechyd a Lles Gweithwyr 2021 - 2026 i gynnwys adborth gan Drosolwg a Chraffu**

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwyo'r Strategaeth Iechyd a Lles Gweithwyr

***Y rheswm dros y penderfyniad:-***

*Er mwyn cefnogi a gwella iechyd a lles hirdymor gweithwyr*

75 **Ystyried adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cynnal ar: Sicrhau safle ar gyfer darparu Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau yng Ngheredigion**

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwyo bod yr Awdurdod Lleol yn derbyn rôl y Bancer Lleol mewn perthynas ag ymdrin â'r Cyllid Cyfalaf sy'n ymwneud â'r safle yn 25 Rhodfa'r Gogledd, Aberystwyth, ac yn derbyn y grant, os rhoddir ef.

***Y rheswm dros y penderfyniad:-***

*Er mwyn cefnogi'r gwaith o ddarparu Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau yn Aberystwyth.*

76 **Ystyried adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol ar: Cod Ymarfer ar gyfer Archwiliadau Diogelwch ar Ffyrdd Sirol a'r ymateb, i gynnwys adborth gan Drosolwg a Chraffu**

77

**PENDERFYNIAD**
Cymeradwyo'r Cod Ymarfer ar gyfer Archwiliadau Diogelwch ar Ffyrdd Sirol a'r Ymateb 2021

***Y rheswm dros y penderfyniad:-***
*Newid ffocws ein hadnoddau, cryfhau ein gwaith cynnal a chadw, a gwella ein gallu i gydymffurfio â'n dyletswyddau cyfreithiol statudol fel yr amlinellir yn Adran 41 Deddf Priffyrdd 1980 a darparu amddiffyniad yn rhinwedd Adran 58 Deddf Priffyrdd 1980 trwy ddull unedig Cymru gyfan, a chydymffurfio â chanllawiau cenedlaethol, sef 'Cod Ymarfer Seilwaith Priffyrdd a Reolir yn Dda 2016'*

**77 Ystyried adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol ar: Bwriad i wahardd pario ar unrhyw adeg ar yr A482, Heol-y-Tywysog, Aberaeron, wrth safle'r hen ysbyty**
**PENDERFYNIAD**
Cymeradwyo hysbysebu'r cynnig i'r cyhoedd ac os na ddaw gwrthwynebiadau i law, gwneud y Gorchymyn Rheoleiddio Traffig angenrheidiol a chyhoeddi Hysbysiad o Wneud yn y wasg i'r perwyl hwn.

***Y rheswm dros y penderfyniad:-***
*I sicrhau bod modd gweld yn briodol wrth fynedfa newydd a adeiladir ar y safle a thrwy hynny cyflawni Amod Cynllunio*

**78 Ystyried adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol ar: Mabwysiadu Priffordd - Cambrian Way, Aberporth**
**PENDERFYNIAD**
Cymeradwyo'r bwriad i fabwysiadu Cambrian Way drwy broses Adran 38 o Ddeddf Priffyrdd 1980 a'i chynnal ar gost y cyhoedd wedi hynny.

***Y rheswm dros y penderfyniad:-***
I alluogi'r ffordd i gael ei chynnal ar gost y cyhoedd.

**79 Ystyried adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol ar: Mabwysiadu Priffordd - Cwrt Dolffin, Ceinewydd**
**PENDERFYNIAD**
Cymeradwyo'r bwriad i fabwysiadu Cam 1 a cham 2, Cwrt Dolffin, Ceinewydd drwy broses Adran 38 o Ddeddf Priffyrdd 1980 a'i chynnal ar gost y cyhoedd wedi hynny.

***Y rheswm dros y penderfyniad:-***
I alluogi'r ffordd i gael ei chynnal ar gost y cyhoedd.

**80 Ystyried adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol ar: Mabwysiadu Priffordd - Ffordd Fynediad i Barc Busnes Horeb, Llandysul**

**PENDERFYNIAD**
Cymeradwyo'r bwriad i fabwysiadu'r Ffordd Fynediad i Barc Busnes Horeb drwy broses Adran 38 o Ddeddf Priffyrdd 1980 a'i chynnal ar gost y cyhoedd wedi hynny.

***Y rheswm dros y penderfyniad:-***
I alluogi'r ffordd i gael ei chynnal ar gost y cyhoedd.

**81 Ystyried adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Cyllid a Chaffael ar: Adroddiad Monitro'r Rhaglen Gyfalaf - Chwarter 1**
Nodi'r adroddiad a'r perfformiad ariannol llwyddiannus

**82 Unrhyw fater arall y penderfyna'r Cadeirydd fod arno angen sylw brys gan y Cabinet**
Dim

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 5 Hydref 2021**

**Cadeirydd:________________**

**Dyddiad:__________________**